# Strategaeth Toiledau Lleol Sir Gaerfyrddin

Medi 2024

Cynhyrchwyd yn unol â Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Rhan 8)




Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

# STRATEGAETH TOILEDAU LLEOL SIR GAERFYRDDIN

**Cyflwyniad** ....2

**Nodau'r Strategaeth** ....3

**Adolygu'r Strategaeth**....4

**Darpariaeth Toiledau Lleol Cyfredol**.... 5

**Beth yw'r Materion Allweddol?**.... 9

Cyllideb y Cyngor.... 9

Iechyd a Llesiant a Chynhwysiant Cymdeithasol .... 9

Cyflawni ein Dyletswyddau Statudol ....9

Cyfleusterau i'r Anabl a Chyfleusterau Changing Places....10

Codi Tâl .... 10

Cynllun Toiledau Cymunedol ....11

Rheolaeth Leol .... 12

Gwell Gwybodaeth ac Arwyddion ....12

**Sut allwn ni wella'r ddarpariaeth?** ....13

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ....13

Gwelliannau Diweddar....14

**Blaenoriaethau Allweddol a Chamau Gweithredu** .... 15

# Rhagarweiniad

Daeth Rhan 8 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017: Darparu Toiledau i rym ar 31 Mai 2018 ac mae'n datgan bod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i baratoi a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar gyfer ei ardal.

Bellach, mae gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru gyfrifoldeb i:

1. Asesu'r angen am ddarpariaeth toiledau ar gyfer eu cymunedau.
2. Cynllunio i ddiwallu'r anghenion hynny.
3. Cynhyrchu strategaeth toiledau lleol; ac
4. Adolygu'r strategaeth, diweddaru a rhoi cyhoeddusrwydd i ddiwygiadau.

> ***Nid oes unrhyw ofyniad statudol i awdurdodau lleol ddarparu toiledau cyhoeddus ac nid yw'r ddyletswydd i baratoi strategaeth ynddo'i hun yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu a chynnal toiledau cyhoeddus eu hunain.***

Fodd bynnag, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gymryd golwg strategol ar draws eu hardal ar sut y gall y cyfleusterau hyn gael eu darparu a sut y gall y boblogaeth leol gael mynediad iddynt. Wrth wneud hynny, rhagwelir y bydd awdurdodau lleol yn ystyried ystod lawn o opsiynau ar gyfer sicrhau bod cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd.

Mae cael darpariaeth toiledau cyhoeddus ddigonol yn bwysig i bobl hŷn a theuluoedd ifanc. Gall darpariaeth toiledau hefyd effeithio ar y gweithgaredd busnes masnachol ac ar brofiad y siopwr yn enwedig. Os nad oes digon o doiledau, bydd y siopwr yn teimlo'n anghyfforddus ac o bosibl yn gadael yr ardal ac yn mynd â'u harian gwario gyda nhw.

# Nodau'r Strategaeth

Mae'r toiledau a ddefnyddir gan y cyhoedd yn cael eu darparu a'u rhedeg gan amrywiaeth o sefydliadau, Adrannau'r Cyngor, busnesau, Cynghorau Cymuned, a sefydliadau cymunedol eraill. Nod y strategaeth hon fydd adolygu a rhoi gwybod am y ddarpariaeth toiledau yn y sir drwy ddod â'r sefydliadau perthnasol hyn at ei gilydd.

Bydd cyfyngiadau ariannol sy'n effeithio ar bob awdurdod lleol yng Nghymru yn her. Ni fydd hyn yn gyfyngedig i awdurdodau lleol, ond mae'r hinsawdd economaidd bresennol hefyd wedi cael effaith ar fusnesau a sefydliadau eraill. Gyda hyn mewn golwg, byddwn ni'n edrych ar newid y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau penodol

wrth i ni geisio defnyddio ffyrdd mwy creadigol o ddarparu cyfleusterau toiledau cyhoeddus.

**Felly, amcanion allweddol y strategaeth yw:**

1. Nodi partneriaethau posibl gydag Adran arall o'r Cyngor, Busnesau Lleol a Chynghorau Tref a Chymuned.
2. Sicrhau lle bo hynny'n bosibl bod darpariaeth ddigonol yn y lleoliad cywir mewn cydweithrediad â thrydydd partïon a sefydliadau eraill.
3. Datblygu cynllun strategol ar gyfer y ddarpariaeth toiledau yn Sir Gaerfyrddin i symud ymlaen yn y tymor canolig.
4. Sicrhau ein bod yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r holl gyfleusterau sydd ar gael.
5. Nodi cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer darparu toiledau Changing Places.
6. Sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymgysylltu ymhellach, a bod camau allweddol yn cael eu cyflawni.

# Adolygu'r Strategaeth

Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn paratoi adroddiad cynnydd interim sy'n nodi'r camau a gymerwyd yn unol â'u strategaeth bob dwy flynedd, gan ddechrau o ddyddiad y strategaeth ddiwethaf a gyhoeddwyd. Bydd yr adroddiad cynnydd interim yn cael ei gyhoeddi o fewn chwe mis i ddyddiad gorffen y cyfnod o ddwy flynedd.

Gall Cyngor Sir Caerfyrddin adolygu ei strategaeth ar unrhyw adeg ac yna rhaid iddo gyhoeddi datganiad o'r camau y mae wedi'u cymryd yn unol â'r strategaeth. Os bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn penderfynu adolygu'r strategaeth yn dilyn adolygiad, bydd yn cyhoeddi'r strategaeth ddiwygiedig ac yna'n paratoi adroddiad cynnydd interim sy'n cynnwys y cyfnod o ddwy flynedd sy'n dechrau o'r dyddiad cyhoeddi.

# Darpariaeth Toiledau Lleol Cyfredol

## Ble mae'r Cyfleusterau Toiledau Presennol?

Mae'r map a ddangosir isod wedi'i gymryd yn uniongyrchol o'n gwefan gorfforaethol ac mae'n rhoi syniad bras o ble y gellir dod o hyd i doiledau cyhoeddus ledled y sir. Dangosir gwybodaeth am oriau agor drwy glicio ar y pinnau unigol drwy ein map electronig sydd ar gael ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin:
[www.sirgar.llyw.cymru/toiledau](http://www.sirgar.llyw.cymru/toiledau)




Mae'r Cynllun Toiledau Cymunedol yn rhaglen sy'n ceisio cynyddu mynediad at gyfleusterau toiledau glân a diogel i'r cyhoedd. O dan y cynllun hwn, mae busnesau a sefydliadau lleol yn gwirfoddoli i sicrhau bod eu cyfleusterau toiledau ar gael i'r cyhoedd yn rhad ac am ddim. Byddwn ni hefyd yn ystyried ychwanegu pinnau newydd i ddangos lleoliadau yr holl aelodau sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Toiledau Cymunedol arfaethedig, ar ôl eu recriwtio, eu gwirio a'u cofnodi. Mae rhagor o wybodaeth am y Cynllun Toiledau Cymunedol i'w gweld isod.

**Mae Tabl 1 yn rhestru lleoliad presennol cyfleusterau toiledau cyhoeddus.**

**Tabl 1**

| Lleoliad | Tâl | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| A48 Cilfan Bristol House | Am ddim | Asiant Cefnffyrdd De Cymru |
| Abergorlech, Canol y Pentref | Am ddim | Cyngor Cymuned |
| Alltwalis, Canol y Pentref | Am ddim | CSC - Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd |
| Rhydaman, Maes Parcio Carregaman | 20c | Danfo / CSC - Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd |
| Rhydaman, Parc Canol y Dref | Am ddim | Cyngor Tref |
| Rhydaman, Maes Parcio'r Co-op | Am ddim | Cyngor Tref |
| Rhydaman, Llyfrgell | Am ddim | CSC - Cymunedau |
| Rhydaman, Canolfan Hamdden Dyffryn Aman | Am ddim | CSC - Hamdden |
| Brechfa, Canol y Pentref | Am ddim | Ymddiriedolaeth y Pentref |
| Harbwr Porth Tywyn (Dwyrain) | Am ddim | Cyngor Tref |
| Harbwr Porth Tywyn (Gorllewin), Caffi Crazy Crepes (toiledau awyr agored) | Am ddim | Contract Preifat |
| Porth Tywyn, Llyfrgell | Am ddim | CSC - Cymunedau |
| Porth Tywyn, Maes Parcio'r Orsaf Reilffordd | Am ddim | CSC - Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd / Cyngor Tref |
| Caerfyrddin, Maes Parcio Heol Ioan | 20c | Danfo / CSC - Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd |
| Caerfyrddin, Canolfan Hamdden | Am ddim | CSC - Hamdden |
| Caerfyrddin, Llyfrgell | Am ddim | CSC - Cymunedau |
| Caerfyrddin, Theatr y Lyric | Am ddim | CSC - Cymunedau |
| Caerfyrddin, Parc | Am ddim | Cyngor Tref |
| Caerfyrddin, Marchnad Nwyddau | Am ddim | CSC - Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd |
| Caerfyrddin, Maes Parcio San Pedr | 20c | Danfo / CSC - Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd |
| Cenarth, Heol y Gelli | Am ddim | Danfo / CSC - Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd |
| Cynwyl Elfed, ger y parc | Am ddim | Cyngor Cymuned |
| Dre-fach Felindre, Parc Puw | Am ddim | CSC - Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd |

| Lleoliad | Tâl | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| Glanyfferi, mynedfa i'r traeth | Am ddim | Danfo / CSC - Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd |
| Ffaldybrenin | Am ddim | Cyngor Cymuned |
| Ffarmers | Am ddim | Cyngor Cymuned |
| Glanaman, Sgwâr Cwmaman | Am ddim | Cyngor Tref |
| Gors-las, ger y Parc | Am ddim | Cyngor Cymuned |
| Cydweli, Sgwâr Canol y Dref | Am ddim | Cyngor Tref |
| Talacharn, ger y Castell | 20c | Danfo / CSC - Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd |
| Llanboidy, Canol y Pentref | Am ddim | Cyngor Cymuned |
| Llanddowror, Heol Dinbych-y-Pysgod | Am ddim | Cyngor Cymuned |
| Maes Parcio Llandeilo (Heol Cilgant) | 20c | Danfo / CSC - Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd |
| Llandeilo, Adeiladau'r Cyngor, Heol Cilgant | Am ddim | CSC - Prif Weithredwr |
| Maes Parcio Castell Llanymddyfri | 20c | Danfo / CSC - Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd |
| Llanymddyfri, Llyfrgell | Am ddim | CSC - Cymunedau |
| Llanymddyfri, Canolfan Hamdden | Am ddim | CSC - Cymunedau |
| Llandybïe | Am ddim | Cyngor Cymuned |
| Llanelli, ger Neuadd y Dref | 20c | Danfo / CSC - Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd |
| Llanelli, Gorsaf Fysiau Porth y Dwyrain | 20c | Danfo / CSC - Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd |
| Llanelli, Theatr y Ffwrnes | Am ddim | CSC - Cymunedau |
| Llanelli, Canolfan Hamdden | Am ddim | CSC - Hamdden |
| Llanelli, Llyfrgell | Am ddim | CSC - Cymunedau |
| Llanelli, Doc y Gogledd | Am ddim | Cytundeb Preifat |
| Llanelli, Marchnad Nwyddau | Am ddim | CSC - Prif Weithredwr |
| Llanelli, Parc Howard | Am ddim | CSC - Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd |
| Llansawel | Am ddim | Ymddiriedolaeth y Neuadd a'r Maes Hamdden |
| Llansteffan, Maes Parcio'r Traeth | Am ddim | Danfo / CSC - Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd |
| Llanybydder, Y Sgwâr | Am ddim | Cyngor Cymuned |
| Llyn Llech Owain | Am ddim | CSC - Cymunedau |

| Lleoliad | Tâl | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| Maes Parcio Meidrim | Am ddim | Cyngor Cymuned |
| Y Meinciau, ger y Neuadd Gymunedol | Am ddim | Cyngor Cymuned |
| Castellnewydd Emlyn, ger y Mart | Am ddim | CSC - Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd |
| Castellnewydd Emlyn, Canolfan Hamdden | Am ddim | CSC - Hamdden |
| Castellnewydd Emlyn, Neuadd y Farchnad | Am ddim | Cyngor Tref |
| Pen-bre, Traeth Cefn Sidan | Am ddim | CSC - Cymunedau |
| Pen-bre, Parc Gwledig | Am ddim | CSC - Cymunedau |
| Pen-bre, Llyfrgell | Am ddim | CSC - Cymunedau |
| Pen-bre, Canolfan Sgïo | Am ddim | CSC - Cymunedau |
| Pen-bre, Caffi'r Orsaf (toiledau awyr agored) | Am ddim | CSC - Cymunedau |
| Pentywyn, Caban | Am ddim | CSC - Cymunedau |
| Pentywyn, Canolfan Parry Thomas | Am ddim | CSC - Cymunedau |
| Pentywyn, Spring Well | Am ddim | CSC - Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd |
| Pencader | Am ddim | CSC - Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd |
| Pen-y-groes, gyferbyn â'r Feddygfa | Am ddim | Cyngor Cymuned |
| Pont-tyweli, Llandysul, Wilkes Head | Am ddim | Canolfan Gymunedol a Chelfyddydau Pwerdy |
| Maes Parcio Sanclêr | 20c | Danfo / CSC - Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd |
| Canolfan Hamdden Sanclêr | Am ddim | CSC - Hamdden |
| Hendy-gwyn ar Daf, Stryd y Gorllewin | Am ddim | Cyngor Tref |

# Beth yw'r Materion Allweddol?

Mae yna ystod o faterion y mae angen eu hystyried wrth ddatblygu'r strategaeth hon:

## Cyllideb y Cyngor

Oherwydd y pwysau cyllidebol ar y Cyngor nid yw'r ddarpariaeth bresennol bellach yn hyfyw, ac mae ystod o opsiynau yn cael eu hystyried. Mae'r cyfyngiadau ariannol hyn yn deillio o gyfuniad o lai o gyllid gan y llywodraeth yn ganolog, costau'n cynyddu, a galw cynyddol am wasanaethau hanfodol. O ganlyniad, mae'r Cyngor yn cael ei orfodi

i ailasesu ei wariant ac ystyried amrywiol opsiynau i reoli ei adnoddau cyfyngedig yn effeithiol. Un o'r opsiynau a ystyrir yw cau toiledau cyhoeddus. Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd yn ystod ymgynghoriadau ynghylch y gyllideb gan y cyhoedd ac aelodau'r cyngor, mae'r Cyngor wrthi'n archwilio i drosglwyddo asedau.

Nid oes unrhyw ofyniad statudol i awdurdodau lleol ddarparu toiledau cyhoeddus ac nid yw'r ddyletswydd i baratoi strategaeth ynddo'i hun yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu a chynnal toiledau cyhoeddus eu hunain. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gymryd golwg strategol ar sut y gellir darparu'r cyfleusterau hyn a sut y gall y boblogaeth leol gael mynediad iddynt. Wrth wneud hynny, rhagwelir y bydd awdurdodau lleol yn ystyried ystod lawn o opsiynau ar gyfer sicrhau bod cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd.

## Iechyd, Llesiant a Chynhwysiant Cymdeithasol

Bydd y graddau y mae pobl yn cael mynediad at doiledau o ansawdd da yn effeithio ar eu hiechyd cyffredinol a llesiant y gymuned gyfan.

Mae diffyg toiledau glân, hygyrch a diogel yn effeithio ar rai unigolion yn fwy nag eraill. Efallai y bydd rhai pobl yn teimlo na allant adael eu cartrefi neu maent yn gyndyn o wneud hynny er mwyn mynd i lefydd lle maent yn bryderus na fydd modd dod o hyd i doiled cyhoeddus. Mae pobl hŷn (rhan gynyddol o'r boblogaeth yn ein cymdeithas sy'n heneiddio), mamau, tadau a gofalwyr â phlant ifanc, pobl anabl a phobl â phroblemau iechyd cronig i gyd angen mynediad hawdd i gyfleusterau toiledau cyhoeddus sydd â chyfarpar addas.

Wrth weithio gyda busnesau, Cynghorau Tref a Chymuned, byddwn yn ymdrechu i nodi darpariaeth addas o gyfleusterau toiledau cyhoeddus.

## Dyletswyddau Statudol

<u>Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936, Adran 87</u>

Mae darparu a chynnal toiledau mewn mannau cyhoeddus yn ôl disgresiwn awdurdodau lleol sydd â phŵer, o dan adran 87 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 ("PHA 1936"), i ddarparu cyfleusterau cyhoeddus, ond nid oes dyletswydd i wneud hynny. Gallant ddewis darparu'r cyfleusterau hyn fel y gwelant yn ddoeth, ac mae'n rhaid pwyso a mesur unrhyw wariant yn erbyn gofynion gwasanaethau lleol eraill. O dan adran 87(3)(c) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936, caniatawyd i awdurdodau lleol godi tâl am ddefnyddio'r holl gyfleusterau cyhoeddus.

<u>Deddf Iechyd y Cyhoedd 2017</u>

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) newydd 2017 yn ceisio gosod dyletswydd ar bob cyngor i ddatblygu strategaeth ar gyfer darparu toiledau a chyfleusterau Changing Places hygyrch i'r cyhoedd.

Felly, bydd gwasanaethau disgresiwn fel darparu toiledau cyhoeddus yn gofyn am ymchwilio i atebion newydd fel bod safon ddigonol o ddarpariaeth toiledau yn cael ei chynnal.

## Cyfleusterau i'r Anabl a Chyfleusterau Changing Places

Nod yr ymgyrch Changing Places yw cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ag anableddau unigol a/neu luosog sydd angen offer arbennig a chymorth gan ofalwyr.

Mae pob toiled Changing Places wedi'i gynllunio ar gyfer pobl nad ydynt yn gallu defnyddio toiledau hygyrch safonol. Mae'n darparu llety i bobl sy'n profi anableddau lluosog a chymhleth ac sydd ag un neu ddau o ofalwyr gyda nhw.

Fel rhan o'r strategaeth hon, bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymgysylltu ag Adrannau'r Cyngor a/neu'r sector preifat i annog gweithredu toiledau cyhoeddus sy'n bodloni gofynion llefydd newid o fewn datblygiadau yn y dyfodol.

## Codi Tâl

Ar hyn o bryd mae naw toiled cyhoeddus sydd ar gael i'w defnyddio am 20c. Mae ehangu / cynyddu'r tâl a godir yn opsiwn o ran helpu i gynnal a chadw a gwella darpariaeth toiledau. Fodd bynnag, bydd unrhyw refeniw a gynhyrchir o godi tâl am ddefnyddio cyfleusterau cyhoeddus yn dal i fod yn sylweddol brin o dalu costau gweithredol llawn ein darpariaeth ledled y sir. Er gwaethaf y ffioedd a gesglir, mae'r treuliau sy'n gysylltiedig â chynnal a gweithredu'r cyfleusterau hyn yn llawer mwy na'r incwm a gynhyrchir.

Mae'r ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid yn awgrymu bod rhai ymatebwyr yn hapus i dalu am doiledau cyhoeddus glân a diogel. Mae taliadau nodweddiadol rhwng 20c a 50c. Ar hyn o bryd mae gennym naw uned sy'n cael eu rheoli gan system talu 20c i fynd i mewn a gallai hyn o bosibl gael ei ymestyn i rai unedau eraill yn y dyfodol. Gall y rheiny sydd angen defnyddio allwedd RADAR gael mynediad i'r unedau hyn AM DDIM.

Bydd gosod darllenwyr cardiau yn y dyfodol a'r systemau priodol ar gyfer talu digyswllt yn cael eu harchwilio ar gyfer toiledau cyhoeddus lle mae ffioedd yn berthnasol. Fodd bynnag, bydd addasu i ddarllen cardiau a/neu gyfleuster talu arian parod yn codi cost gwariant sylweddol lle nad oes cyllid grant ar gael.

## Cynllun Toiledau Cymunedol

Mae Cymdeithas Toiledau Prydain wedi adrodd bod ymgyrch sylweddol gan y cynghorau tref a dinas mawr i ddenu manwerthwyr mawr a deiliaid busnes i ymuno ag ystod o gynlluniau a reolir, a elwir yn Gynllun Toiledau Cymunedol lleol.

Mae'r Cynllun Toiledau Cymunedol yn rhaglen sy'n ceisio cynyddu mynediad at gyfleusterau toiledau glân a diogel i'r cyhoedd. O dan y cynllun hwn, mae busnesau a sefydliadau lleol, fel caffis, bwytai a siopau, yn gwirfoddoli i sicrhau bod eu cyfleusterau toiledau ar gael i'r cyhoedd yn rhad ac am ddim. Mae'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yn arddangos logo neu arwydd adnabyddadwy sy'n nodi eu bod yn rhan o'r cynllun. Mae'r fenter hon yn helpu i fynd i'r afael â'r prinder toiledau cyhoeddus mewn rhai ardaloedd ac ar yr un pryd, o fudd i fusnesau lleol trwy gynyddu ymwelwyr o bosibl. Mae'r Cynllun Toiledau Cymunedol yn hyrwyddo ymgysylltu a chydweithrediad cymunedol wrth wella cyfleustra a llesiant cyffredinol preswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Yr her yw manteisio ar y ddarpariaeth ychwanegol, sydd eisoes ar gael ar sail fwy ffurfiol. Yn ddealladwy, nid yw'r cynllun yn briodol ym mhobman ac mae'n cael anhawster gyda grwpiau mawr o ymwelwyr yn cyrraedd ar yr un pryd, yn ogystal â gwasanaethu economi'r nos, pan fydd y rhan fwyaf o fusnesau ar gau.

Mae gan y math hwn o gynllun y potensial i gynyddu'r cyflenwad a'r math o doiledau sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Yn ogystal, mae angen ystyried unrhyw gymorth ariannol a allai/y gellid ei roi i'r rheiny sy'n cymryd rhan. Mae'r cynlluniau cychwynnol hyn yn ceisio cefnogi'r aelodau trwy roi taliad i helpu i wrthbwyso cost nwyddau traul a chynhyrchion glanhau ychwanegol. Roedd y tâl atodol hwn yn amrywio o gyngor i gyngor a allai amrywio o £250 - £500.

## Rheolaeth Leol

Mae Cynghorau Tref a Chymuned a sefydliadau cymunedol eraill yn hanfodol i ddatblygu dull strategol o ddarparu toiledau cyhoeddus.

Mae toiledau cyhoeddus yn ein llyfrgelloedd a'n canolfannau hamdden. Ein nod yw codi ymwybyddiaeth ymhlith preswylwyr ac ymwelwyr am argaeledd y cyfleusterau hyn.

Mae Sir Gaerfyrddin yn sir wledig sy'n ei gwneud hi'n anodd weithiau sicrhau bod tasgau rheoli sylfaenol fel agor/cau a glanhau toiledau cyhoeddus yn cael eu gwneud yn effeithlon. Ein profiad yw bod toiledau cyhoeddus yn cael eu fandaleiddio mewn rhai lleoliadau ac mae angen eu hatgyweirio'n rheolaidd, sy'n gostus.

Mae trosglwyddo asedau i gynghorau tref a chymuned wedi cael effaith fuddiol ar gadw rhai cyfleusterau a hyrwyddo rheolaeth leol lle bo'n fforddiadwy. Mae hyn yn caniatáu i gynghorau lleol redeg eu cyfleusterau eu hunain a hefyd yn caniatáu i bobl leol sy'n byw yn agos at gyfleusterau wneud penderfyniadau lleol ynghylch amseroedd agor a hyblygrwydd defnydd.

### Gwell Gwybodaeth ac Arwyddion

Nid yw hyrwyddo mynediad cyhoeddus i doiledau yn ymwneud â chynyddu'r ddarpariaeth yn unig, gallai hefyd fod yn ymwneud â gwella'r arwyddion a gwybodaeth arall am yr hyn sydd ar gael. Mae hyn yn bwysig i bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Ar hyn o bryd mae nifer o fyrddau gwybodaeth i ymwelwyr yn cael eu darparu gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn ogystal â chyfarpar tebyg arall a ddarperir gan rai cynghorau tref a chymuned. Felly, rhoddir ystyriaeth i adolygu'r byrddau gwybodaeth presennol hyn gyda'r bwriad o gynnwys gwybodaeth fanylach am leoliadau toiledau.

Byddai fersiwn wedi'i huwchraddio o'r wybodaeth hon gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth toiledau arall y gallai'r cyhoedd ei defnyddio yn ddefnyddiol ar gyfer preswylwyr ac ymwelwyr â'r sir.

## Sut allwn ni wella'r ddarpariaeth?

### Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Wrth ddatblygu strategaeth o'r natur hon mae'n bwysig bod ymgynghori wedi digwydd â'r cyhoedd, busnesau a phartïon eraill â buddiant a hynny mewn ffordd ystyrlon i lywio ein dull gweithredu. Felly, rydym wedi cynnal ymarfer ymgynghori â rhanddeiliaid gyda'r nod o gasglu gwybodaeth am y themâu a'r materion allweddol.

Pwrpas barn a syniadau yn arbennig yw helpu i wella darpariaeth toiledau cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin.

Roedd y cwestiynau allweddol a ofynnwyd yn ymwneud â'r canlynol:

- Diogelwch a glendid cyfleusterau
- Lleoliad y cyfleusterau
- Ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd
- Cyfleusterau Newid Cewynnau
- Mynediad i'r anabl

Cynhaliwyd yr ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid dros gyfnod o chwe wythnos a daeth i ben ar y 10fed o Hydref 2023. Cwblhawyd mil, cant a phymtheg (1115) o holiaduron ar-lein, yn bersonol yn ein Canolfannau Hwb neu dros y ffôn gan ein Canolfan Gyswllt.

Er mwyn helpu i ddatblygu blaenoriaethau ar gyfer y strategaeth newydd, amlinellir rhai o'r prif faterion a'r themâu isod, ond pwysleisir mai dim ond blas o'r ymatebion yw hyn.

- **Dod o hyd i Doiled Cyhoeddus -** *Dywedodd 88% o'r ymatebwyr nad oedd hi'n hawdd dod o hyd i doiled cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin.*

- **Effaith ar Dwristiaeth a Busnes -** *Roedd 84% o'r farn bod argaeledd toiledau cyhoeddus yn atal pobl i ymweld ag ardal siopa neu leoliad arall o ddiddordeb.*

- **Argaeledd -***Mae amrywiaeth o leoliadau wedi'u nodi lle'r oedd ymatebwyr yn meddwl y gellid gwella cyfleusterau. Y tu allan i Lanelli a Chaerfyrddin, cafodd tri lleoliad eu crybwyll yn benodol: Pen-sarn, Crosshands a Phorth Tywyn.*

- **Cyflwr -** *Gofynnwyd i bobl sy'n ymweld â thoiledau cyhoeddus sgorio eu profiad rhwng 1 (isaf) - 10 (uchaf). Yn siomedig, dim ond 15% o'r ymatebwyr a roddodd sgôr o fwy nag 8 gan dynnu sylw at gyflwr a glendid fel y brif broblem.*

- ***Diwallu Anghenion -*** Dywedodd 77% o ymwelwyr â thoiledau cyhoeddus eu bod yn diwallu eu hanghenion (cyfleusterau newid cewynnau / hygyrchedd).

- **Codi Tâl -** *Roedd ymateb cymysg i'r cwestiwn o godi tâl am ddefnyddio toiledau cyhoeddus. Nododd 48% o'r ymatebwyr eu bod yn fodlon talu tâl bach.*

## Gwelliannau Diweddar

Rydym wedi cwblhau dau brosiect i wella ein cyfleusterau toiledau cyhoeddus ar gyfer preswylwyr ac ymwelwyr Sir Gaerfyrddin.

**Biniau i'r Bechgyn**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin mewn partneriaeth â Grŵp Cymorth Canser y Prostad Gorllewin Cymru wedi gwneud rhai newidiadau gyda'i gilydd. Mae biniau glanweithiol bellach ar gael i ddynion sydd eu hangen mewn sawl un o'n cyfleusterau cyhoeddus. Mae hyn i gefnogi'r dynion sy'n profi anymataliaeth y coluddyn.

Lansiodd Prostate Cancer UK eu hymgyrch 'Lifting the lid on male incontinence' ac maent wedi gofyn am gael gwared ar rywedd fel bod darpariaethau ar gael ym mhob toiled. Bydd y gwelliant yn caniatáu i ddynion gael mynediad at finiau glanweithiol i ddynion mewn toiledau, gan eu galluogi i fwynhau eu bywydau heb y pryder a'r straen wrth feddwl am sut y byddant yn gwaredu eu cynhyrchion.

Ar hyn o bryd mae gennym naw cyfleuster i'r ddau ryw lle mae biniau glanweithiol ar gael i ddynion a menywod. Yn ogystal, mae'r holl gyfleusterau toiledau i'r anabl i'r ddau ryw ac mae biniau glanweithiol yn cael eu darparu.

Bydd arwyddion mewn lle ar gyfer yr holl gyfleusterau.

**Prosiect dŵr yfed am ddim**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymuno ag ymgyrch 'City to Sea' i leihau'r defnydd o boteli dŵr plastig untro drwy ei gwneud hi'n hawdd, yn gyfleus ac yn rhad i ail-lenwi poteli dŵr personol y gellir eu hailddefnyddio. Rydym wedi darparu mwy o argaeledd

o gyfleusterau dŵr yfed dibynadwy, am ddim a diogel y gall preswylwyr ac ymwelwyr ddibynnu arnynt pan fyddant allan ar hyd y lle. Ariannwyd y prosiect hwn gan gynllun grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru.

Gellir dod o hyd i'r gorsafoedd ail-lenwi hyn yn y chwe lleoliad canlynol:

- Cyfleusterau Cyhoeddus ym Maes Parcio Llanymddyfri
- Cyfleusterau Cyhoeddus ym Maes Parcio Llandeilo
- Cyfleusterau Cyhoeddus ym Maes Parcio Heol Ioan, Caerfyrddin
- Cyfleusterau Cyhoeddus yn Nhalacharn
- Cyfleusterau Cyhoeddus ym Mharc Howard, Llanelli
- Cyfleusterau Cyhoeddus ym Maes Parcio Llansteffan

Mae'r lleoliadau hyn wedi'u dewis gan mai nhw sydd â'r nifer fwyaf o ymwelwyr ar draws Sir Gaerfyrddin. Bydd arwyddion mewn lle ar gyfer yr holl unedau.

## Blaenoriaethau Allweddol a Chamau Gweithredu

Yn seiliedig ar ganllawiau gan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, materion allweddol, ac adborth gan randdeiliaid, cynigir y blaenoriaethau a'r camau gweithredu allweddol canlynol wrth symud ymlaen:

### Blaenoriaeth Allweddol 1:

***Nodi partneriaethau posibl gydag Adran arall o'r Cyngor, Busnesau Lleol a Chynghorau Tref a Chymuned.***

**Camau Gweithredu**

1. Parhau i gefnogi Cynghorau Tref a Chymuned a sefydliadau eraill drwy drosglwyddo asedau, cyngor a chymhelliant ariannol i wella neu ddatblygu darpariaeth.
2. Nodi a mynd i'r afael â'r holl gyfleusterau mewnol, er enghraifft Llyfrgelloedd a Chanolfannau Hamdden gyda'r nod o gynnwys safleoedd perthnasol a phriodol mewn mapio toiledau a chyhoeddusrwydd gwefannau yn y dyfodol.
3. Sefydlu cysylltiadau partneriaeth â chwmnïau preifat a sefydliadau eraill mewn meysydd lle rydym am annog mwy o ymwelwyr.
4. Ymchwilio i'r cyfle i ymgysylltu â pherchnogion siopau lleol a busnesau eraill sy'n masnachu ledled y sir i ddatblygu sylfaen ffurfiol ar gyfer sefydlu Cynllun Toiledau Cymunedol.

**Blaenoriaeth Allweddol 2:**

***Sicrhau lle bo hynny'n bosibl bod darpariaeth ddigonol yn y lleoliad cywir mewn cydweithrediad â thrydydd partïon a sefydliadau eraill.***

**Camau Gweithredu**

1. Cynnal rhaglen o arolygon o gyfleusterau presennol yn unol â'r canllawiau a'r safonau a argymhellir gan Gymdeithas Toiledau Prydain

**Blaenoriaeth Allweddol 3:**

***Datblygu cynllun strategol ar gyfer y ddarpariaeth toiledau yn Sir Gaerfyrddin i symud ymlaen yn y tymor canolig.***

**Camau Gweithredu**

1. Adolygu darpariaeth cyllideb refeniw a chyfalaf presennol i nodi cyfleoedd y mae'n gwella a gwella'r ddarpariaeth bresennol.
2. Ymchwilio i gyfleoedd i gynyddu incwm trwy godi tâl gan gynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio taliad digyswllt.
3. Ymchwilio a gwneud cais am gyllid allanol sy'n gysylltiedig â datblygu twristiaeth ac adfywio.
4. Ymchwilio i gyfleoedd posibl ar gyfer arallgyfeirio ein stoc asedau cyfredol.

**Blaenoriaeth Allweddol 4:**

***Sicrhau ein bod yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r holl gyfleusterau sydd ar gael.***

**Camau Gweithredu**

1. Diweddaru'r wefan i ddarparu manylion clir o ble mae ein holl doiledau cyhoeddus ac unrhyw gyfleusterau ychwanegol sy'n ymwneud ag adeiladau a busnesau cyhoeddus eraill y gellir eu hadnabod fel rhan o'n hymgyrch i ddatblygu Cynllun Toiledau Cymunedol.
2. Adolygu ein holl arwyddion sy'n berthnasol i doiledau cyhoeddus presennol i sicrhau eu bod yn glir eu hadnabod. Ystyried byrddau stryd mewn lleoliadau priodol.

**Blaenoriaeth Allweddol 5:**

***Nodi cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer darparu toiledau Changing Places.***

**Cam Gweithredu**

1. Sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i ymgorffori cyfleusterau Changing Places o fewn datblygiadau preifat neu ddatblygiadau Cyngor priodol yn y dyfodol.

## Blaenoriaeth Allweddol 6:

***Sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymgysylltu ymhellach, a bod camau allweddol yn cael eu cyflawni.***

**Camau Gweithredu**

1. Nodi swyddog ymroddedig o fewn Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd i oruchwylio ac adrodd ar gyflawni'r camau gweithredu allweddol.
2. Wrth ddiweddaru'r adroddiad nesaf, bydd rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn cael eu cynnwys fel rhan o'r adolygiad.